

**Mae pob croesfan  
wastad yn wahanol,  
felly darllenwch yr  
arwyddion a dilynwch  
y cyfarwyddiadau  
bob amser.**

Mae eu hanwybyddu'n peryglu'ch  
bywyd chi a bywydau pobl eraill.  
Gallech hefyd fod yn torri'r gyfraith.


Mae llawer o ddamweiniau fu bron  
â digwydd a marwolaethau pob  
blwyddyn. Rhaid i chi, eich teulu  
a'ch ffrindiau ddeall a pharchu'r  
rheolau er mwyn croesi'n ddiogel.



## Cysylltu â ni

 @networkrail


 [www.networkrail.co.uk](http://www.networkrail.co.uk)

 03457 11 41 41

**Stopiwch, edrychwch a gwrandewch  
wrth groesfannau gwastad**

**NetworkRail**

**Arhoswch yn ddiogel  
wrth groesfannau gwastad.  
Stopiwch, edrychwch  
a gwrandewch.**



**Stopiwch, edrychwch a gwrandewch  
wrth groesfannau gwastad**

## Chwalu'r mythau

**Myth 1:** Dydy trenau ddim yn rhedeg ar ddydd Sul.

**Fact:** Mae trenau'n rhedeg trwy'r dydd pob dydd.

**Myth 2:** Gall trenau arafu os ydyn nhw'n fy ngweld.

**Ffaith:** Mae'n cymryd mwy na 320 o fetrau i 400 o dunelli o ddr sy'n mynd ar 60mya stopio. All neb eich gweld o 320 o fetrau i ffwrdd, heb sôn am stopio trên.

**Myth 3:** Heddiw, gyda thechnoleg fodern, bydd rhwystrau'n fy synhwyro a'm rhybuddio'n awtomatig os oes trên yn dod.

**Ffaith:** Ni all rhwystrau synhwyro pobl na dim byd arall sy'n mynd heibio iddynt. Maen nhw yno i'ch cadw ar bellter diogel o drên sy'n mynd heibio.

**Myth 4:** Dim ond un trên sy'n mynd heibio ar y tro.

**Ffaith:** Mae trenau'n rhedeg trwy'r dydd pob dydd, dau ar y tro yn aml.

**Myth 5:** Dim ond rhybudd yw'r goleuadau sy'n fflachio. Maen nhw'n golygu bod gen i ddigon o amser i groesi.

**Ffaith:** Mae'r goleuadau sy'n fflachio yn golygu bod trên yn nesáu, felly mae angen ichi aros mewn lle diogel y tu ôl i'r llinell.

## Sut ydw i'n gyrru'n ddiogel dros groesfan wastad sy'n cael ei gweithio gan ddefnyddwyr?




### Stopiwch a darllenwch yr arwyddion

Mae pob croesfan yn wahanol, felly darllenwch yr arwyddion a dilynwch y cyfarwyddiadau bob amser.



### Ffoniwch y gweithredydd

Gwnewch yn siŵr y cewch ganiatâd i groesi os yw'r arwyddion yn dweud wrthy'ch i wneud hynny.



### Croeswch yn gyflym

Agorwch y gatiau fel bod eich ffordd allan yn glir a pheidiwch â stopio wrth groesi.



### Caewch y gatiau

Caewch yr holl gatiau y tu ôl ichi fel bod y groesfan yn ddiogel i'r defnyddiwr nesaf.